Public Document Pack

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Bridgend County Borough Council**

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Annwyl Cynghorydd,

**FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED**

Cynhelir Cyfarfod Fforwm Cyngor Tref a Chymuned o bell trwy Dimau Microsoft ar **Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021** am **16:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 8
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 20/09/21.

4. Asesiad Llesiant ac Anghenion Poblogaeth — 9 - 12

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

| Cynghorwyr: | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
| --- | --- | --- |
| S Aspey | DK Edwards | CE Smith |
| SE Baldwin | T Giffard | SG Smith |
| JPD Blundell | RM Granville | JH Tildesley MBE |
| MC Clarke | M Hughes | SR Vidal |
| HJ David | B Jones | KJ Watts |
| P Davies | B Sedgebeer | CA Webster |
| | | RE Young |

Gan gynnwys cynrychiolydd o bob Cyngor Tref a Chymuned

COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 20 MEDI 2021, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Alderton | S Allin | HJ David | H Bennett |
| G Chappell | P Davies | M Hughes | T Giffard |
| K Grabham | RM Granville | J Pratt | C Jones |
| T Lyddon | I McLaggan | RE Young | C Reeves |
| D Unwin | KJ Watts | D Evans | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SG Smith a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Joanne Norman | Rheolwr Cyllid |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Gwasanethau Cynllinio a Datblygu |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

211. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

CYTUNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd S Baldwin yn Gadeirydd ar y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd HJ David.

212. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

213. DERBYN COFNODION

CYTUNWYD: Fod cofnodion y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned dyddiedig 10 Mai 2021 yn cael eu derbyn fel cofnod gwir a chywir.

214. LLUNIO DYFODOL PEN-Y-BONT – TRAFODAETHAU CYLLIDEB 2021 YMWNEUD Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Adroddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb ar y broses ymgynghori ynglŷn â'r ymgynghoriad am y gyllideb, gyda'r bwriad o sicrhau ymgysylltiad effeithiol gyda Chynghorau Tref a Chymuned a thrigolion lleol. Eglurodd y bydd cyflwyniad yn cael ei roi i'r Fforwm yn ymwneud â Strategaeth Ariannol Tymor Canolog, a fydd yn gosod y sail ar gyfer anghenion cynilo a phwysau cyllidol i'r dyfodol.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm gan Reolwr y Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllideb ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) er mwyn creu darlun o anghenion cynilo a phwysau cyllidol i'r dyfodol. Hysbysodd y Fforwm fod chwarter 1 yn rhagweld dangos gorwariant o £904k. Tanlinellodd effaith ariannol Covid-19 ar y Cyngor, a oedd

wedi arwain at bwysau costau ychwanegol, colli incwm megis parcio, cinio ysgol a ffioedd cynllunio. Mae'n bosib na fydd modd sicrhau arbedion Strategaeth Ariannol Tymor Canolig o £1.760m yn ystod 2021-22 ac mae'n bosib y bydd diffyg yng nghasgliadau Treth y Cyngor. Serch hynny, cafwyd ambell arbediad annisgwyl gan fod y ddarpariaeth gwasanaeth wedi lleihau ychydig neu wedi dod i ben, yn ogystal ag arbedion costau teithio oherwydd llai o gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Darparwyd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Caledi Covid, sydd bellach wedi'i hesgyn tan 31 Mawrth 2022. Tanlinellodd y senarios cyllidebol posib yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Chwefror 2021, gyda lleihad o £6.959m yn 2022-23 yn cael ei amlygu fel y senario cyllidebol mwyaf tebygol a hysbysodd y Fforwm po uchaf y cynnydd yng Nghyllid Allanol Agregau a'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor, lleiaf i gyd fydd y toriadau cyllidebol gofynnol. Pwysleisiodd hefyd yr effaith y byddai cynnydd o 2% yng nghyllid Llywodraeth Cymru yn arwain at dargedau cynilo gwahanol ar gyfer lefelau gwahanol o gynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllideb y pwysau'n wynebu'r Cyngor megis effaith hir dymor Covid-19 wrth gyrraedd y cyfnod adfer ac ansicrwydd ynglŷn lefelau cyllido; effaith Brexit ar gostau ' prisiau; costau staffio – cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, Cyflog Byw Go Iawn, a chodiadau cyflog anhysbys; pwysau chwyddiant, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) cyfredol yn 3.2%, yn codi'n gyflym a phwysau demograffig. Dywedodd fod y blaenoriaethau posib yn cynnwys Busnes a'r economi' Digartrefedd; Iechyd a lles; Digideiddio; Datgarboneiddio a lefelau Treth y Cyngor a gesglir.

Hysbyswyd y Fforwm gan Reolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Cydraddoldeb o'r nifer o drigolion oedd wedi ymgysylltu yn y broses ymgynghori ynlŷn â'r gyllideb, gyda 5,000 yn ymgysylltu yn 2018 a 7,500 yn ymgysylltu yn 2019.  Er gwaethaf y pandemig, a oedd yn rhwystro ymgysylltiad wyneb yn wyneb, roedd 1,831 enghraifft o ryngweithio yn 2020 drwy gyfrwng cyfuniad o gwblhau arolygon, ymgysylltiad mewn sawl cyfarfod, y cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltiad â chyfathrebu digidol drwy Banel Dinasyddion yr awdurdod lleol. Eglurodd mai bwriad yr ymgynghoriad (a aeth yn fyw y prynhawn yma) yw i drafod mor eang â phosib a'r gobaith oedd dyblygu ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a chyfarfodydd byw yn 2021.  Bydd dolen i'r ffurflen electronig a phosteri'n cael eu hafnon at bob Cyngor Tref a Chymuned. Bydd y tîm Ymgynghori ac Ymgysylltu'n ymgynghori'n uniongyrchol â Chynghorau Tref a Chymuned i drefnu mynychu cyfarfodydd. Hysbysodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Adroddiad Ymgynghori ar y Gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.

Cyfeiriodd aelod o'r Fforwm at ofyn i Gynghorau Tref a Chymuned gymryd cyfrifoldeb dros weithrediadau a gwasanaethau oddi wrth y Fwrdeistref Sirol gan holi ai cynilion i'w bancio neu doriadau fyddai'r rhain. Eglurodd Rheolwr y Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllideb fod y Cyngor yn defnyddio sawl dull i sicrhau arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, e.e. creu incwm a helpu i ddod o hyd i gymaint o doriadau yn y gyllideb â phosibl drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn hytrach na thorri lefelau gwasanaeth. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor bob amser yn gwneud eu gorau i ddarparu'r gwasanaeth gorau, er y byddai'n debygol mai ar ffurf toriadau yn y gyllideb i'r dyfodol y byddai'r gyfradd helaethaf o arbedion i'w gweld.

CYTUNWYD: Fod y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned wedi derbyn ac ystyried yr adroddiad gan roi ystyriaeth i ymgysylltiad yn ystod y cyfnod byw.

215. DIWEDDARIAD CYNLLUNIO'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL, Y POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL A CHREU LLEOEDD

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm gan Reolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu ar y Cynllun Datblygu Lleol, y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chreu Lleoedd.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) yn strategaeth statudol, lefel uchel y mae angen paratoi ar ei chyfer ac sy'n nodi telerau defnydd tir a blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dirwyn i ben ac mae cynlluniau ar gyfer cynllun newydd ar waith. Eglurodd fod y cynllun mewn man allweddol a bod y Cyngor wedi cyhoeddi Blaen Ddrafft o Gynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer y cyhoedd, gydag ymgynghoriad 98 wythnos wedi'i gynnal yn ystod yr Haf.

Hysbysodd y Fforwm fod y Blaen Ddrafft yn adeiladu ar y Strategaeth Ddewisol, yr ymgynghorwyd yn ei chylch yn 2019. Diben yr ymgynghoriad yw ceisio barn pob un o'n cymunedau ar gam nesaf y broses Cynllun Datblygu Lleol. O'i gwblhau a'i fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cymryd lle'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol (2006-2021) fel Cynllun Datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a hynny tan 2030. Eglurodd fod y Blaen Ddrafft yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig sy'n amlinellu polisïau cynllunio lleol, dosraniadau defnydd tir a chyfiawnhad cysylltiedig ar sail tystiolaeth gefnogol. Mae'r Map Cynllun yn dangos y dosraniadau defnydd tir, ffiniau aneddiadau a dynodiadau cynllunio sy'n cael eu hawgrymu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar ffurf cynllun.

Hysbyswyd y Fforwm gan Reolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu o'r 4 amcan strategol, oedd yn ceisio adlewyrchu'r polisi a'r ddeddfwriaeth genedlaethol ac ymdrin â'r materion oedd yn wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Dywedodd fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Blaen Ddrafft wedi rhoi cyfle i bob aelod o'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol i gynnig barn, gyda 1200 ymateb wedi'u derbyn. Roedd yr ymatebion yn cael eu hystyried gan swyddogion cyn penderfynu oedd angen gwneud newidiadau i'r Blaen Ddrafft. Byddai Cytundeb Cyflawni wedyn yn cael ei baratoi, gyda Llywodraeth Cymru'n argymell amserlen addas o safbwynt mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ffurfiol.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu egwyddorion Cymru'r Dyfodol 2040 (Y Cynllun Cenedlaethol), sef Cynllun Datblygu defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru. Amlinella lle dylid buddsoddi mewn isadeiledd a datblygiad er lles Cymru gyfan a'i phobl mewn cysylltiad â'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol. Fframwaith ydyw sy'n seiliedig ar y Cynlluniau Datblygu Strategol (SDPs) ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (LDPs) ar lefel awdurdod lleol, y mae angen iddyn nhw gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol. Dywedodd fod y Cynllun Cenedlaethol yn ogystal â Pholisi Cynllunio Cymru 11 (PPW11) yn rhoi pwyslais mawr ar gynllunio rhanbarthol drwy Gynlluniau Datblygu Lleol a mwy o bwysau ar greu lleoedd. Ystyrir Cymru'r Dyfodol 2040 gan Lywodraeth Cymru fel y cynllun datblygu cenedlaethol cyntaf. Diffinnir ardaloedd o dyfiant cenedlaethol, gyda Phen-y-bont yn cael ei hadnabod fel lleoliad strategol pwysig a thref allweddol o fewn y rhanbarth yn ogystal â bod yn rhan o Ardal Tyfiant Cenedlaethol De Ddwyrain Cymru.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod gan y cysyniad o Greu Lleoedd, sef y modd y mae lleoedd yn cael eu cynllunio, eu dylunio a'u rheoli, y potensial i lunio mewn modd cadarnhaol sut a ble mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cymdeithasu, yn symud ac yn ymgysylltu. Mae'n ymwneud hefyd â sicrhau fod pob datblygiad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu neu gyfoethogi'r amgylchedd, er mwyn i bobl, cymunedau, busnesau a natur allu ffynnu. Dywedodd fod y cysyniad wedi'i

ddatblygu mewn ymateb i'r syniad o fod yn 'ddi-le' o fewn amgylched adeiledig, lle mae datblygiadau newydd yn ddiffygiol o safbwynt hunaniaeth, cymeriad, synnwyr cymuned neu gydberchnogaeth. Mae'n ymwneud â gwneud pethau'n well, creu cymunedau bywiog, cynaliadwy, o ansawdd da a gwella safon cynllunio'n gyfan gwbl gyda phobl yn ganolog i'r broses. Dywedodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu mai'r awdurdod cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i reoli a gwella datblygiad ac ymyrryd yn briodol er budd pawb a bod modd cyflawni hyn drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a thrwy uwchgynllunio cadarn. Bydd y system rheoli datblygiad yn herio datblygwyr drwy geisio gwelliannau ac ansawdd uwch. Eglurodd fod gan greu lleoedd gefnogaeth sylweddol drwy'r polisi cenedlaethol a'i fod yn cydymffurfio â strategaethau'r Cyngor, megis y strategaeth ddatgarboneiddio.

Dywedodd wrth y Fforwm fod y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol wedi lansio Siartr Creu Lleoedd Cymru, wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid o fewn yr amgylchedd adeiladu a naturiol. Eglurodd y gallai Cynghorau Tref a Chymuned arwyddo'r siarter.

Cyfeiriodd aelod o'r Fforwm at y 1,200 o ymatebion i fersiwn ddrafft y Cynllun Datblygu Lleol gan ofyn a oedd y gyfradd ymateb yn gyfartal ag ymgynghoriadau eraill ar sail y Cynllun Datblygu Lleol. Hysbyswyd y Fforwm gan Reolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod yr ymatebion i fersiwn ddrafft y Cynllun Datblygu Lleol dipyn yn uwch nag yn achos y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol, sef y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf.

Tanlinellodd aelod o'r Fforwm enghraifft o greu lleoedd ar safle hen Ysgol St John's lle y cwtogwyd ar y nifer o unedau preswyl a diolchodd i Hayley Kemp, y Prif Swyddog Cynllunio am ei rôl wrth sicrhau fod datblygiad safonol yn cael ei adeiladu ar y safle.

Holodd aelod o'r Fforwm a oedd unrhyw dir o eiddo'r awdurdod yn gynwysedig yn y Cynllun Datblygu Lleol. Hysbyswyd y Fforwm gan yr Arweinydd fod yr awdurdod yn cynnig nifer o safleoedd posibl fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol. Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu wrth y Fforwm fod yn rhaid cyfiawnhau'r safleoedd sy'n cael eu cynnig yn llawn ac y bydd y Cyngor yn dilyn yr un broses ag yn achos tir mewn perchnogaeth breifat. Holodd aelod o'r Fforwm a fyddai safleoedd ysgolion gwag yn cael eu gosod ar y Cynllun Datblygu Lleol. Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu na fyddai safleoedd llai nad oedd yn cael eu diffinio fel bod yn strategol o reidrwydd yn cael eu gosod ar y Cynllun Datblygu Lleol, ond gellid eu dynodi fel safleoedd adfywio neu gael eu hystyried fel ar gyfer datblygiad o fewn ffiniau'r anheddiad. Tanlinellodd yr Arweinydd enghraifft Ysgol Gyfun Maesteg a fu'n destun proses gadarn cyn ei ddatblygu fel adnodd gofal ychwanegol. Hysbyswyd y Fforwm gan Reolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod datblygiadau mawr o dros 10 o dai a gynigiwyd fel safleoedd posibl yn cael eu hasesu'n fanwl cyn cael eu cynnwys ar ddrafft terfynol y Cynllun Datblygu Lleol. Sicrhawyd y Fforwm gan yr Aelod Cabinet Cymunedau y byddai safleoedd posibl yn mynd drwy broses drylwyr ac mai'r ymatebion i'r Cynllun Datblygu Lleol drafft oedd y nifer fwyaf eto a diolchodd i'r swyddogion cynllunio am eu hymdrechion wrth gyflwyno'r drafft o'r Cynllun Datblygu Lleol. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod y Cynllun Datblygu Lleol yn broses statudol ac y byddai'n cael ei ystyried gan Arolygydd Llywodraeth Cymru ac mae gwaith y Cyngor oedd gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol.

Holodd aelod o'r Fforwm beth oedd yr amserlen o safbwynt adroddiad yr Arolygydd. Hysbyswyd y Fforwm gan Reolwr y Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu mai'r cam nesaf yn y broses yw llunio adroddiad ymgynghorol i drafod unrhyw newidiadau i'r cynllun ar sail tystiolaeth, yn ogystal ag adolygu'r cytundeb cyflwyno. Dywedodd y byddai angen ystyried llwyth gwaith yr Arolygydd  a byddai angen ychwanegu'r Cynllun

Datblygu Lleol at y llwyth gwaith hwnnw. Hysbysodd y Fforwm fod y pandemig wedi arafu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a gallai fod angen 6 mis arall i gwblhau'r broses gan fynd â'r gwaith hyd at ganol 2022.

Holodd aelod o'r Fforwm a oedd effaith y pandemig wedi effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol a newid arferion gwaith. Dywedodd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod y pandemig wedi effeithio ar rai o'r polisïau ac y byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol. Eglurodd fod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni.
.

CYTUNWYD:

1. Fod y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned wedi nodi'r adroddiad.
2. Y dylid trefnu adroddiad cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cyfarfod o'r Fforwm i'r dyfodol.

216. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:17

This page is intentionally left blank

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO TOWN AND COMMUNITY COUNCIL FORUM**

**29 NOVEMBER 2021**

**REPORT OF THE INTERIM CHIEF OFFICER, FINANCE, PERFORMANCE AND CHANGE**

**WELL-BEING AND POPULATION NEEDS ASSESSMENT**

**1. Purpose of report**

1.1 The purpose of this report is to:
- inform the Town and Community Council Forum of the work of the Bridgend and Cwm Taf Public Services Boards and the Cwm Taf Morgannwg Regional Partnership Board in relation to the Well-being and Population Needs Assessments
- outline the responsibilities of certain Town and Community Councils under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (the Act)

**2. Connection to corporate well-being objectives/other corporate priorities**

2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:

- **Supporting a successful sustainable economy** – taking steps to make the county borough a great place to do business, for people to live, work, study and visit, and to ensure that our schools are focussed on raising the skills, qualifications and ambitions for all people in the county borough.

- **Helping people and communities to be more healthy and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.

**3. Background**

3.1 Public Services Boards (PSBs) were established on 1 April 2016 following the implementation of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

3.2 All PSBs must publish their Well-being Assessments no later than one year before they publish their Well-being Plans.

3.3 Well-being Plans must be published no later than one year after the next ordinary local election.

3.4 In practice this means that the next Well-being Assessment will be published by 30 April 2022 and the Well-being Plan published by 30 April 2023.

3.5 Bridgend PSB published its first Assessment of Well-being in April 2017, which assessed the state of the economic, social, environmental and cultural well-being of Bridgend County.

3.6 The Assessment of Well-being was used to develop the first Bridgend Well-being Plan which was published in May 2018.

3.7 More information about the Bridgend PSB and the current Well-being Plan can be found here.

## 4. Current situation/proposal

4.1 Following the change to the health board boundary Bridgend PSB and Cwm Taf PSB (which covers Rhondda Cynon Taf and Merthyr Tydfil local authority areas) have agreed to align their future priorities with a view to creating one board to cover the Cwm Taf Morgannwg region.

4.2 The two PSBs have also agreed to align their work more closely with the Cwm Taf Morgannwg Regional Partnership Board (RPB).

4.3 The RPB has a statutory duty under the Social Services and Well-being Act 2014 to undertake a Population Needs Assessment of needs for care and support and carers who need support across Cwm Taf Morgannwg.

4.4 The three boards agreed that the Well-being Assessment and the Population Needs Assessment would be undertaken on a regional footprint, but will include local data wherever possible and to align the citizen involvement activities of both Assessments.

4.5 The Co-production Network for Wales is supporting all three boards to involve those who live, work or visit Cwm Taf Morgannwg in the development of the assessment.

4.6 Town and Community Councils are statutory consultees on both the Well-being Assessment and the Well-being Plan and will be asked for their views on the draft Well-being Assessment.

4.7 Bridgend PSB would like to further involve individual Bridgend Town and Community Councils and the Town and Community Council Forum by asking them to complete a short questionnaire either individually or collectively to feed into the Assessment.

**Duty on Larger Town and Community Councils**

4.8 Section 40 (1) of the Well-being of Future Generation (Wales) Act 2015 places a duty on certain Community and Town Councils to take all reasonable steps towards meeting the local objectives included in the Well-being Plan that has effect in their areas.

4.9 A Community or Town Council is subject to that duty only if its gross income or expenditure was at least £200,000 for each of the three financial years preceding the year in which the local Well-being Plan is published.

4.10 If a Town or Community Council is subject to the duty it must publish a report each relevant financial year detailing the progress it has made in meeting the objectives in the local Well-being Plan.

4.11 The Statutory Guidance Shared Purpose: Shared Future: Collective Roles (Community Councils) provides more detail. A copy of the guidance can be found here.

**Engagement with All Town and Community Councils**

4.12 Community or Town Councils who do not meet the criteria for being subject to the duty in section 40 (1) of the Act but which still wish to contribute towards meeting the local objectives in the Well-being Plan are welcome to do so on a voluntary basis.

4.13 Bridgend PSB would like to further involve individual Town and Community Councils and the Town and Community Council Forum in the development of the Well-being Plan.

4.14 Town and Community Councils can help to ensure that the views of local people influence the Well-being Plan and the PSB would welcome views on how this can be achieved.

**5. Effect upon policy framework and procedure rules**

5.1 There is no direct impact on the Council's policy framework and procedure rules.

**6. Equality Act 2010 implications**

6.1 The protected characteristics identified within the Equality Act, Socio-economic Duty and the impact on the use of the Welsh language have been considered in the preparation of this report. As a public body in Wales, the Council must consider the impact of strategic decisions, such as the development or the review of policies, strategies, services and functions. It is considered that there will be no significant or unacceptable equality impacts as a result of this report.

**7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 implications**

7.1 The Well-being Assessment and the Well-being Plan will demonstrate the sustainable development principle by ensuring that by meeting the needs of the present we do not compromise the ability of future generations to meet their own needs. This is evidenced through the 5 ways of working:

- Long term – the Well-being Assessment seeks to understand the long term needs of residents and communities in Bridgend County Borough.
- Prevention – the Assessment brings together data and intelligence from partners that will be used to plan prevention work as part of the Well-being plan.

- Integration – the Assessment will be used to plan services that contribute to all seven well-being goals in the Well-being of Future Generations (Wales) Act.
- Collaboration – the Assessment is being undertaken with key partners across the private, public and voluntary sectors.
- Involvement – a significant element of the Assessment is based on engaging and involving residents and community groups

**8. Financial implications**

8.1 There are no financial implications arising directly from this report.

**9. Recommendations**

9.1 It is recommended that the Town and Community Council Forum receives and considers the report.

Gill Lewis

**INTERIM CHIEF OFFICER, FINANCE, PERFORMANCE AND CHANGE**
**29 NOVEMBER 2021**

**Contact officer:** Judith Jones
Partnerships and Community Safety Manager
Mark Brace
Chair of Bridgend Public Services Board

**Telephone:** (01656) 642759

**Email:** Judith.Jones@bridgend.gov.uk

**Postal address:** Level 4, Civic Centre, Angel Street, Bridgend.

**Background documents:**

None